1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
info@audit.cymru / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

**Cyfeirnod:** AC496/4825A2025
**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Ebrill 2025

Annwyl Dafydd

# Gosod amcanion llesiant yng Nghyngor Celfyddydau Cymru

## Cefndir

Mae fy nyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gofyn am archwiliadau mewn cyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau). Yn benodol, mae'n rhaid i mi asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fyddant yn a) gosod amcanion llesiant a b) cymryd camau i'w cyflawni.

Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu ceisio 'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'[1]. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio'[2].

[1] Adran 5 (1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[2] Llywodraeth Cymru, Diben a Rennir: Canllawiau Statudol ar y Dyfodol a Rennir ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, 2016

Mae'n rhaid i mi gynnal archwiliadau ym mhob corff perthnasol yn y cyfnod adrodd presennol, a ddechreuodd ym mis Mai 2020 ac sy'n ymestyn hyd at fis Mai 2025. Rwy'n gwneud hyn trwy raglen dreigl o waith.

Mae fy archwilwyr yn cymhwyso fframwaith asesu cyffredin wrth archwilio gosod amcanion llesiant. Mae'n ymdrin â p'un a oedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sail i'r broses ar gyfer datblygu'r amcanion llesiant. Mae hefyd yn cwmpasu ystyriaethau sy'n ymwneud â chyflenwi a monitro. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu. Mae gan yr archwiliadau hyn gwmpas cyfyngedig, ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein gwaith casglu tystiolaeth yn gymesur.

## Ein harchwiliad o osod amcanion llesiant

Dechreuodd Cyngor y Celfyddydau weithio ar osod amcanion llesiant newydd yn hydref 2022. Penderfynodd ymgorffori'r amcanion mewn strategaeth gorfforaethol newydd. Ar y pryd, roedd yn bwriadu cwblhau'r gwaith erbyn Ebrill 2023.

Cytunodd fy archwilwyr y byddent yn olrhain y broses ac yn cynnal archwiliad mewn 'amser real'. Byddai hyn yn caniatáu iddynt arsylwi digwyddiadau allweddol a rhannu adborth interim gyda Chyngor y Celfyddydau. Dechreuon nhw gasglu tystiolaeth ym mis Tachwedd 2022 ac roeddent yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ym mis Mai 2023, ar ôl cyhoeddi'r strategaeth derfynol ac amcanion llesiant. Roedd eu gwaith casglu tystiolaeth yn cynnwys gweithdy gyda staff allweddol, arsylwi digwyddiad staff, ac adolygu dogfennau allweddol.

Fodd bynnag, yng ngwanwyn 2023 penderfynodd Cyngor y Celfyddydau ymestyn ei amserlenni ar gyfer cwblhau ei strategaeth a'i amcanion llesiant. Roedd y rhesymau yn cynnwys newidiadau mewn uwch swyddogion ac aelodau'r cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Cyngor, a'r oedi wrth ddatblygu strategaeth ddiwylliant Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, fe wnaethom gytuno â Chyngor y Celfyddydau y byddem yn oedi'r archwiliad ac yn ail-ymgysylltu ar ôl iddo baratoi strategaeth ddrafft.

Cymeradwyodd Cyngor y Celfyddydau ei strategaeth derfynol ym mis Mai 2024. Yna cyflwynodd y strategaeth er mwyn cael cymeradwyaeth Gweinidogol.

O ystyried bod fy archwiliad wedi bod ar y gweill ers peth amser, ac nad oedd amseriad cymeradwyaeth Gweinidogol yn hysbys ar adeg ein hadolygiad, penderfynais ddod â'm canfyddiadau allweddol at ei gilydd a dod â'r archwiliad i ben. Mae'r canfyddiadau yn y llythyr hwn yn seiliedig yn bennaf ar y gwaith a wnaed gan fy archwilwyr yn 2022-23. Fodd bynnag, cawsom drafodaethau mwy diweddar gyda

chysylltiadau allweddol i ddeall datblygiadau dilynol ac fe wnaethom adolygu'r strategaeth wedi'i diweddaru.

Ers dod â'r canfyddiadau at ei gilydd, rydym yn deall bod y strategaeth wedi derbyn cymeradwyaeth Gweinidogol. Rwy'n nodi ei fod hefyd wedi'i gyhoeddi ar eich gwefan[3].

## Gwaith cysylltiedig

Roedd fy archwilwyr wedi bwriadu cynnal fy archwiliad o gamau i gyflawni amcanion llesiant fel ail gam o'r gwaith yn dilyn fy archwiliad o osod amcanion llesiant. O ystyried y newidiadau i'r amserlen ar gyfer yr olaf, mae'r archwiliadau hyn wedi gorgyffwrdd.

Mae'r archwiliad o gamau i gyflawni amcanion llesiant wedi canolbwyntio ar drefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol, yn unol â'r amcanion llesiant. Mae rhai materion cysylltiedig yn cael eu crybwyll isod a dylid ystyried y ddau allbwn ochr yn ochr â'i gilydd.

## Canfyddiadau allweddol

Yn gyffredinol, gwelsom fod Cyngor y Celfyddydau wedi gwella ei broses gosod amcanion llesiant y tro hwn ond y gallai gryfhau ei gymhwysiad o'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried tueddiadau'r dyfodol, ymestyn cyfranogiad rhanddeiliaid, ac archwilio sut mae ei amcanion yn ymwneud â rhai cyrff eraill.

### Y broses

Aeth Cyngor y Celfyddydau ati i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhagweithiol wrth osod ei amcanion llesiant newydd. Roedd wedi gosod ei amcanion cyntaf yn 2019. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod yr angen i gryfhau'r broses y tro hwn.

---

[3] Cyngor Celfyddydau Cymru, Ein Strategaeth 2024-2034

Rhoddodd Cyngor y Celfyddydau bwyslais arbennig ar sicrhau y byddai ei amcanion newydd wrth wraidd ei fframwaith cynllunio strategol. Dangosodd hefyd ymrwymiad clir i gynnwys barn staff a rhanddeiliaid yn well yn y broses.

### Y sylfaen dystiolaeth

Creodd Cyngor y Celfyddydau gyfleoedd i staff rannu eu barn. Cynhaliodd ddigwyddiad i'r holl staff a chyfarfodydd amrywiol gydag uwch arweinwyr i greu trafodaeth ar gynnwys y strategaeth. Clywsom fod hyn wedi helpu i sicrhau mwy o ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith staff ac uwch arweinwyr.

Defnyddiodd Cyngor y Celfyddydau ganfyddiadau ei adolygiad buddsoddi i lywio ei strategaeth a'i amcanion llesiant. Bu'n rhaid iddo ohirio'r adolygiad o 2020 i 2022 oherwydd pandemig COVID-19. Roedd yr adolygiad buddsoddi yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos. Casglodd farn trwy arolwg a chyfarfodydd agored ar-lein, gyda phwyslais ar ymgysylltu â phobl greadigol a sefydliadau celfyddydol. Roedd Cyngor y Celfyddydau yn hyrwyddo'r arolwg ar ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy banel dinasyddion yr awdurdodau lleol. Roedd Cyngor y Celfyddydau hefyd yn ymgysylltu ar wahân â'i Gymdeithion, sy'n darparu cyngor arbenigol, a rhai rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rydym yn cydnabod bod y sefydliadau a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad adolygu buddsoddi yn strategol bwysig i gyflawni'r amcanion llesiant. Felly, byddai'r wybodaeth a gasglwyd ganddynt yn berthnasol iawn i ddatblygu'r strategaeth. Fodd bynnag, gallai ymgynghoriad sy'n canolbwyntio ar yr amcanion llesiant fod wedi cael ei fframio'n wahanol ac wedi targedu cynulleidfa ehangach. Gallai fod wedi ceisio cynnwys gwahanol gymunedau neu gyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft y rhai sy'n ariannu neu'n elwa ar brosiectau celfyddydol a ariennir. Rydym yn deall y rhesymau dros ddibynnu ar yr ymgynghoriad adolygu buddsoddi. Fodd bynnag, bydd yn cael cyfle i gasglu barn rhanddeiliaid allweddol eraill a chymunedau amrywiol pan fydd yn gosod ei amcanion llesiant nesaf.

Tynnodd Cyngor y Celfyddydau hefyd ar wahanol ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu ei ddealltwriaeth o risgiau a heriau allweddol sy'n wynebu'r sector celfyddydau. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gan ei dîm ymchwil ac ymarferion sganio'r gorwel rheolaidd. Er bod hyn yn canfod rhai materion sy'n debygol o effeithio ar y sector, nid oedd yn ystyried tueddiadau ehangach yn benodol. Byddai ystyried

materion a nodir yn yr adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol[4] yn helpu i lywio cynllunio tymor hwy Cyngor y Celfyddydau.

### Cynllunio i wella llesiant

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi sicrhau bod ei amcanion llesiant yn ganolog i'w weithgarwch trwy ddynodi ei egwyddorion buddsoddi fel ei amcanion llesiant. Mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr â thri nod, wedi'u cymryd o'i Siarter Frenhinol: Datblygu, Cysylltu a Hyrwyddo.

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi canolbwyntio'r amcanion llesiant ar y manteision ehangach y gall celf eu cynnig. Maent yn mynd i'r afael â dyfodol y celfyddydau yng Nghymru ac yn dangos bod Cyngor y Celfyddydau yn ceisio cyflawni effeithiau ataliol, er gwaethaf ein sylwadau uchod ynghylch tueddiadau'r dyfodol.

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi mynegi ei frwdfrydedd dros weithio gydag eraill i gyflawni'r manteision ehangach hyn. Mae cydweithio yn ganolog i gyflawni'r amcanion llesiant, ac mae Cyngor y Celfyddydau eisoes yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid. Mae ei gynllun blynyddol 2024-25 yn cyfeirio at waith ar yr argyfwng hinsawdd a natur, iechyd ac iechyd meddwl, addysg, cydraddoldeb a thlodi.

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi ystyried y berthynas rhwng ei amcanion strategol a blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'r cysylltiad hwn yn amlwg yn y cynllun blynyddol, sy'n cynnwys dolenni i Nodau Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth. Roedd Cyngor y Celfyddydau wedi bwriadu cysylltu ei strategaeth newydd â strategaeth ddiwylliannol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ffocws cyson, er bod strategaeth Llywodraeth Cymru wedi cael ei gohirio ymhellach.

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi llai o ystyriaeth i'r berthynas rhwng ei amcanion llesiant sy'n dod i'r amlwg a rhai sefydliadau eraill, megis cyrff diwylliant eraill, awdurdodau lleol, cyrff y GIG, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gallai gwneud hynny nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin sy'n arwain at gyfleoedd cydweithredol

---

[4] Llywodraeth Cymru, Tueddiadau'r Dyfodol 2021, Rhagfyr 2021

pellach. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dod ag amcanion llesiant o bob cwr o Gymru at ei gilydd fel adnodd.[5]

### Cyflawni a monitro'r amcanion llesiant

Nid yw'r strategaeth yn nodi'n fanwl y camau y bydd Cyngor y Celfyddydau yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dweud wrthym y bydd y camau yn cael eu nodi yn ei gynlluniau blynyddol ac yn cael eu disgrifio mewn datganiad llesiant sydd ar ddod, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Nodwn fod cynllun blynyddol 2024-25 yn trefnu 'tasgau' o dan y tri nod. Rydym yn gwerthfawrogi bod Cyngor y Celfyddydau yn gweithio trwy'r cysylltiadau rhwng ei amcanion llesiant a'r nodau. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'r berthynas yn hollol glir eto.

Nid oes unrhyw fesurau perfformiad, nac unrhyw wybodaeth am sut mae Cyngor y Celfyddydau yn bwriadu asesu'r effaith dros y cyfnod o ddeng mlynedd yn y strategaeth ei hun. Er bod Cyngor y Celfyddydau wedi nodi 'mesurau llwyddiant' yn ei gynllun blynyddol 2024-25, mae'r rhain yn gyffredinol yn ymwneud â chyflawni gweithgareddau penodol. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dweud wrthym y bydd yn adeiladu ar y mesurau hyn mewn iteriadau o'i gynlluniau blynyddol yn y dyfodol a bydd pwyntiau adolygu allweddol i ystyried y cyflawniad yn erbyn y strategaeth. Mae fy adroddiad archwiliad ar gynaliadwyedd ariannol yng Nghyngor y Celfyddydau yn codi'r mater hwn.

Dylai dynodi ei egwyddorion adolygu buddsoddi fel ei amcanion llesiant olygu y bydd Cyngor y Celfyddydau yn naturiol yn cyfeirio adnoddau i gefnogi eu cyflawniad. Fodd bynnag, mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol a bydd angen iddo ystyried cyflawnadwyedd ei amcanion yn y cyd-destun hwn. Bydd hefyd yn bwysig iddo dynnu ar ei wybodaeth am berfformiad y cyrff a'r prosiectau y mae'n ei ariannu a'r cyfraniad y maent yn ei wneud tuag at ei amcanion llesiant. Unwaith eto, mae fy adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn archwilio'r mater hwn.

---

[5] Gall swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu'r wybodaeth hon ar gais.

## Argymhellion

Wrth i Gyngor y Celfyddydau ddechrau cyflawni ei amcanion llesiant newydd, pan fydd yn adolygu'r amcanion hyn ac yn gosod rhai newydd nesaf, dylai adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy:

- ystyried ystod o dueddiadau yn y dyfodol a allai lywio'r amcanion llesiant hirdymor a'r camau i'w cymryd yn y tymor byr a chanolig;
- sicrhau ei fod yn casglu barn rhanddeiliaid allweddol a chymunedau amrywiol i lywio'r gwaith o osod ei amcanion llesiant;
- ystyried sut y gallai ei waith gefnogi amcanion partneriaid, ac i'r gwrthwyneb.

Mae fy adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn codi argymhellion eraill sy'n berthnasol i faterion yn y llythyr hwn.

Gobeithio bod y canfyddiadau hyn yn ddefnyddiol. Bydd fy archwilwyr yn cysylltu â'ch staff i gadarnhau ymateb ffurfiol i'r argymhellion.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i lywio ein gwaith casglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ein harchwiliadau egwyddorion datblygu cynaliadwy, a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac wedi'u llywio gan gyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set ddarluniadol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gallai da edrych.

| | |
|---|---|
| **I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?** | |
| **Cynllunio: A oedd y broses a roddodd y corff ar waith i osod ei amcanion llesiant wedi'i thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi defnyddio data a deallusrwydd arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?** | • Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol sydd wedi'i ddefnyddio i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr.<br>• Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o anghenion, risg a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae hyn yn debygol o gael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| | – Canlyniadau ymarferion ymgysylltu/ymgynghori lleol<br>– Monitro gwasanaeth a chwynion<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Cyfoeth Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru ac Asesiadau Seiliedig ar Ardal<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r cyfranogiad hwnnw – boed yn sylfaenol, eilaidd neu gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar/yn ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd. |
| **A yw'r corff wedi cynllunio'r amcanion i gyflawni buddion** | • Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac wedi'u cynllunio i ysgogi gweithgarwch ar draws y sefydliad. |

| | |
|---|---|
| **tymor hwy, wedi'u cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?** | • Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a hirdymor. Pan fo amcanion yn cael eu gosod dros gyfnod byr i ganolig, maent yn cael eu gosod yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **Darparu adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion llesiant?** | • Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau, risgiau tymor hwy a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i ddarparu buddion ataliol, lle mae'r rhain yn cael eu disgrifio fel ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?** | • Mae'r corff yn tynnu ar ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol . |
| **Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?** | |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?** | • Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac yn darparu buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Mae 'llinyn euraidd' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion. |
| **A yw'r corff yn ceisio dysgu o'r ffordd y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant a gwella'r ffordd honno?** | • Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.<br>• Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac wedi gwella'r broses ar gyfer gosod ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae'r corff wedi myfyrio ar sut mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o osod amcanion llesiant. |